Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Strategaeth Tlodi Plant i Gymru

Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Dweud eich barn am dlodi plant yng Nghymru**'.

Ionawr 2023

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi yn ei adnabod i'ch helpu chi.

Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth mae'r geiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 20**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

Gwefan: www.llyw.cymru/strategaeth-tlodi-plant-cymru

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Cynnwys

Tudalen

Cyflwyniad.....4

Ein nodau.....6

1. Gwneud yn siŵr bod gan deuluoedd ragor o arian i gefnogi anghenion plant a phobl ifanc.....10

2. Gwneud llwybrau i helpu plant a phobl ifanc i symud allan o dlodi.....11

3. Meddwl am hawliau a chydraddoldeb plant.....13

4. Meddwl am urddas a pharch.....15

Beth sydd yn digwydd nesaf.....19

Geiriau anodd.....20

Cyflwyniad



Rydyn ni eisiau delio gyda **thlodi**. A gwneud bywyd yn fwy teg yng Nghymru. Fel rhan o'n gwaith ar hyn rydyn ni wedi ysgrifennu **strategaeth** i ddelio gyda **thlodi plant** yng Nghymru.

Tlodi plant ydy pan mae plentyn yn cael ei fagu heb y pethau pwysig maen nhw eu hangen i fyw yn dda. Mae hyn yn meddwl nad oes ganddyn nhw bethau fel bwyd, dilad gofal iechyd ac addysg.

Strategaeth ydy cynllun gweithredu fydd yn ein helpu ni i gyflawni nod arbennig.

Mae byw mewn **tlodi** yn gallu cael effaith ar addysg, iechyd a **llesiant** plantyn.

Llesiant ydy pan mae person yn hapus, iach a chyfforddus gyda'u bywyd a beth maen nhw'n ei wneud.

Fe fydd y ddogfen yma yn eich helpu chi i gynnal digwyddiad **ymgynghori**. Ymgynghoriad ydy cyfarfod i siarad am rhywbeth.

Yn y ddogfen yma rydyn ni'n egluro ein syniadau ar gyfer y **Strategaeth Tlodi Plant i Gymru**. Rydyn ni eisiau i bobl siarad am y pethau yma yn eich digwyddiad ymgynghori.

Rydyn ni eisiau:

- gwneud Cymru yn lle mwy teg i fyw ynddo lle mae gan bawb yr un cyfleoedd mewn bywyd

- lleihau'r nifer o blant a theuluoedd sydd yn byw mewn **tlodi** yng Nghymru.



Fe wnaethon ni ysgrifennu ein **Strategaeth Tlodi Plant i Gymru** diwethaf yn 2015. Mae angen inni ddiweddaru'r cynllun nawr.

Mae angen inni wneud yn siŵr bod ein cynllun newydd yn meddwl am yr effaith mae pethau fel coronafeirws a'r **argyfwng costau byw** wedi ei gael ar deuluoedd.

Mae'r **argyfwng costau byw** yn meddwl bod costau pethau mae pobl eu hangen fel bwyd, nwy, trydan a phetrol yn codi. Ond dydy faint rydyn ni'n ennill ddim yn codi. Felly mae gan bobl lai o arian nawr.

Rhaid inni feddwl am sut i wario arian i gefnogi anghenion mwyaf pobl yng Nghymru.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ddeddf am wella llesiant Cymru**.

Mae'n gwneud yn siŵr bod **gwasanaethau cyhoeddus** yn meddwl am yr effaith mae eu penderfyniadau yn ei gael ar bobl nawr ac yn y dyfodol.

Gwasanaethau cyhoeddus ydy cyrff sydd yn cael arian gan Lywodraeth Cymru i redeg gwasanaethau i bobl yng Nghymru. Er enghraifft y GIG, a gwasanaethau tân ac achub.

Mae'r ddeddf yma yn dweud hefyd y dylai **gwasanaethau cyhoeddus** weithio yn well gyda'i gilydd i ddelio gyda phroblemau. Ac fe ddylen nhw hefyd wedi rhagor gyda phobl a chymunedau.

Beth rydyn ni eisiau ei weld yn y cynllun

Rhaid inni gynnwys yr holl **wasanaethau cyhoeddus** yn y **Strategaeth Tlodi Plant i Gymru** newydd.

Rhaid inni weithio gyda'n gilydd i helpu i greu Cymru rydyn ni eisiau byw ynddi nawr, ac yn y dyfodol.

Dydyn ni ddim yng ngofal pethau fel budd-daliadau, trethi a faint o arian rydyn ni'n ei gael i wario ar **wasanaethau cyhoeddus**. Llywodraeth y DU sydd yng ngofal hyn.

Ond mae llawer o bethau mae Llywodraeth Cymru a **gwasanaethau cyhoeddus** yn gallu eu gwneud i wella bywydau plant a'u teuluoedd.

Rhaid inni hefyd weithio gyda'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus.

Mae'r **trydydd sector** yn rhoi cefnogaeth i blant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau yng Nghymru.

Mae ganddyn nhw rôl bwysig i'w chwarae mewn **tlodi plant**. Mae **trydydd sector** yn meddwl cyrff gwirfoddol ac elusennau.

Mae'r **sector preifat** hefyd yn bwysig. Maen nhw'n gallu cefnogi gwaith elusennau bach lleol.A hefyd rhoi swyddi i gymunedau.

Rydyn ni eisiau gwybod beth mae pobl yn feddwl

Rydyn ni eisiau clywed beth mae plant, pobl ifanc, teuluoedd, pobl o'r gymuned a chyrff eraill sydd yn cefnogi plant mewn **tlodi** yn ei feddwl.

Fe fydd hyn yn ein helpu ni i wneud penderfyniadau am beth ddylen ni ei wneud i ddelio gyda **thlodi plant** yng Nghymru.

Fe fyddwn ni yn edrych ar sut fydd y cynllun yn effeithio ar bethau fel hawliau plant a'r iaith Gymraeg.

Fe wnaethon ni edrych ar wybodaeth gan gyrff fel **Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru**. Mae'r wybodaeth yma wedi ein helpu ni i ddeall beth mae angen inni siarad amdano gyda phobl er mwyn ysgrifennu ein cynllun.

Defnyddiwch y ddogfen yma os gwelwch yn dda i'ch helpu chi i arwain y drafodaeth yn eich digwyddiad ymgynghori. Ac yna ateb y cwestiynau yn y ffurflen ymateb.

Ar beth rydyn ni eisiau barn pobl

1. Gwneud yn siŵr bod gan deuluoedd ragor o arian i gefnogi anghenion plant a phobl ifanc

Mae hyn yn meddwl gwneud pethau fel:

- Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod am fudd-daliadau a'r gefnogaeth ariannol maen nhw'n gallu ei gael.

- Lleihau cost bwyd, tanwydd a thai. A phethau pwysig fel cynnyrch mislif, eitemau i fabanod newydd a gwisg ysgol.

- Meddwl am sut i wneud pethau yn fwy hawdd i blant a theuluoedd.

Er enghraifft, drwy ei gwneud yn fwy hawdd i lenwi ffurflenni fel nad oes rhaid i chi roi'r un wybodaeth i'r un corff llawer o weithiau.

Dydyn ni ddim yn gwybod am ba hir fydd yr argyfwng costau byw yn parhau.

Mae angen inni wneud yn siŵr bod gan blant a'u teuluoedd y gefnogaeth maen nhw ei angen nawr ac yn y dyfodol.

2. Gwneud ffyrdd clir i helpu plant a phobl ifanc i symud allan o dlodi

Mae hyn yn meddwl gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn tyfu i fyny gyda chyfle gwell i symud allan o **dlodi**.

Rydyn ni eisiau i gyrff ganolbwyntio ar flynyddoedd cynnar i blant. Dyma'r amser cyn i fabi gael ei eni hyd nes maen nhw'n dechrau ysgol. Mae hyn yn gallu gwella iechyd a datblygiad plentyn.

Rhaid inni wneud yn siŵr bod pawb yn gallu cael addysg.

A rhaid inni wneud ein **economi** yn gryf a gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael swyddi sydd yn talu yn well.

Yr **economi** ydy faint o arian sydd gan wlad.

Mae angen inni gefnogi rhieni a gofalwyr i ddatblygu eu sgiliau i gael gwaith.

A gwneud yn siŵr bod rhieni a gofalwyr yn gallu fforddio gofal plant a thrafnidiaeth da.

Mae angen inni wneud yn siŵr bod Gwaith yn talu yn dda fel nad oes rhaid i rieni orfod dioddef gyda chostau byw.

Mae angen inni wneud yn siŵr bod ein cynllun yn cael ei ysgrifennu i drin pobl yn gyfartal ac yn deg.

Mae angen inni ddarganfod ffyrdd o gefnogi teuluoedd sydd yn cael mwy o anhawster oherwydd **gwahaniaethu**.

Gwahaniaethu ydy pan rydych chi'n cael eich trin yn ddrwg neu yn annheg oherwydd eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rhywiol.

3. Meddwl am hawliau a chydraddoldeb plant

Rydyn ni eisiau cefnogi plant a phobl ifanc i fwynhau eu hawliau. Yn enwedig y rhai gyda **nodweddion gwarchodedig**.

Nodweddion gwarchodedig ydy term sydd yn cael ei ddefnyddio am wahanol grwpiau o bobl sydd efallai yn cael eu trin yn llai teg, Mae hyn yn meddwl:

- Pobl anabl
- Rhyw – cael eich trin yn wahanol neu yn annheg oherwydd eich bod yn ddyn neu yn fenyw
- Pobl o wahanol hil neu ddiwylliant
- Pobl o wahanol oedran
- Pobl syth, hoyw a lesbaidd
- Pobl o wahanol grefyddau neu bobl heb grefydd
- Menywod sydd yn feichiog neu gyda babi newydd
- Pobl sydd wedi priodi neu sydd gyda phartner sifil
- Pobl trawsrywiol – rhywun sydd yn nodi bod ganddyn nhw ryw gwahanol i'r un oedd ganddyn nhw ar eu genedigaeth.

Rydyn ni'n credu bod gan ein holl blant a phobl ifanc yr hawl i:

- Cael y cychwyn gorau mewn bywyd.

- Cymryd rhan a mwynhau dysgu a chael yr addysg gorau.

- Mwynhau ffordd o fyw iach a chael eu hamddifffyn rhag niwed, **camdriniaeth, esgeulustod** a **gwahaniaethu**.

Camdriniaeth ydy pan mae rhywun yn eich anafu neu yn eich trin yn ddrwg.

Esgeulustod ydy pan mae rhywun ddim yn edrych ar eich ôl yn gywir.

- Gallu chwarae a chael hwyl.

- Rhywun yn gwrando arnoch chi a'ch trin gyda pharch.

- Cael cartref a chymuned sydd yn lle braf i dyfu i fyny.

- Cael digon o gefnogaeth ariannol ar gyfer beth maen nhw ei angen.

Rydyn ni'n gwybod bod **tlodi** yn gallu ei gwneud yn anodd i blant a phobl ifanc fwynhau rhai o'r hawliau yma.

Mae angen inni wneud yn siŵr bod ein cynlluniau a'n gwaith yn helpu i wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg.

4. Gwneud yn siŵr bod plant a theuluoedd yn cael eu trin gydag urddas a pharch

Urddas ydy gwerthfawrogi rhywun a'u trin gyda pharch.

Rydyn ni eisiau i bobl a gwasanaethau sydd yn cefnogi plant a theuluoedd i weithio mewn ffyrdd sydd ddim yn gwneud pethau yn fwy anodd i bobl sydd yn byw mewn **tlodi**.

Fe ddylen ni wneud y system yn fwy hawdd. Fel ei bod yn fwy hawdd darganfod a chael cefnogaeth.

Mae angen inni wneud yn siŵr nad ydy plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu gadael allan oherwydd bod eu teuluoedd yn dlawd.

Fe ddylai awdurdodua lleol a **gwasanaethau cyhoeddus** weithio gyda phlant, pobl ifanc, eu teuluoedd a chymunedau i ddarganfod beth sydd yn bwysig iddyn nhw. A beth sydd angen ei newid.

Beth sydd yn digwydd nesaf

Dydyn ni ddim yn gallu rhoi popeth yn y cynllun, ond fe fyddwn ni yn meddwl drwy beth mae pawb yn ei feddwl.

Rhaid inni wneud penderfyniadau anodd am sut i wario arian cyhoeddus i wella **llesiant** pobl. Ac amddiffyn yr **economi**.

Dydyn ni ddim yn gwybod os byddwn ni yn cael arian ar gyfer y **Strategaeth Tlodi Plant i Gymru** gan Lywodraeth y DU.

Ond rydyn ni'n dal i allu gwneud newid drwy ddefnyddio'r arian sydd gennym ni yn y ffyrdd gorau posibl.

Dywedwch wrthyn ni os gwelwch yn dda os ydych chi eisiau adborth ar beth rydyn ni wedi ei ddysgu ac am y penderFYniadau rydyn ni yn eu gwneud.

Geiriau Anodd

Camdriniaeth

Camdriniaeth ydy pan mae rhywun yn eich anafu neu yn eich trin yn ddrwg.

Economi

Yr economi ydy faint o arian sydd gan wlad.

Esgeulustod

Esgeulustod ydy pan nad ydy rhywun yn edrych ar eich ôl yn gywir.

Gwahaniaethu

Gwahaniaethu ydy pan rydych chi'n cael eich trin yn ddrwg neu yn annheg oherwydd eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rhywiol.

Gwasanaethau cyhoeddus

Gwasanaethau cyhoeddus ydy cyrff sydd yn cael arian gan Lywodraeth Cymru i redeg gwasanaethau i bobl yng Nghymru. Er enghraifft y GIG, a gwasanaethau tân ac achub.

Llesiant

Mae llesiant yn meddwl bod person yn hapus, iach ac yn gyfforddus gyda'u bywyd a beth maen nhw'n ei wneud.

Rydyn ni angen eich help i benderfynu beth i'w roi yn y cynllun Tlodi Plant newydd i Gymru.

Nodweddion gwarchodedig

Nodweddion gwarchodedig ydy term sydd yn cael ei ddefnyddio am wahanol grwpiau o bobl sydd efallai yn cael eu trin yn llai teg, Mae hyn yn meddwl:

- Pobl anabl
- Rhyw – cael eich trin yn wahanol neu yn annheg oherwydd eich bod yn ddyn neu yn fenyw
- Pobl o wahanol hil neu ddiwylliant
- Pobl o wahanol oedran
- Pobl syth, hoyw a lesbaidd
- Pobl o wahanol grefyddau neu bobl heb grefydd
- Menywod sydd yn feichiog neu gyda babi newydd
- Pobl sydd wedi priodi neu sydd gyda phartner sifil
- Pobl trawsrywiol – rhywun sydd yn nodi bod ganddyn nhw ryw gwahanol i'r un oedd ganddyn nhw ar eu genedigaeth

Tlodi plant

Tlodi plant ydy pan mae plentyn yn cael ei fagu heb y pethau pwysig maen nhw eu hangen i fyw yn dda. Mae hyn yn meddwl pethau fel bwyd, dillad, gofal iechyd ac addysg.

Urddas

Mae urddas yn meddwl gwerthfawrogi rhywun a'u trin nhw gyda pharch.